# POLISI GWRTH-DWYLL

# A'R BROSES YMATEB I DWYLL

| Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Cwblhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb |
|---|---|---|
| | Cyhoeddiad Cyntaf | |

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog Cyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Dirprwy Brif Swyddog Cyllid | Prif Swyddog Cyllid | Y Bwrdd Gweithredol | 29 Hydref 2025 |

*Caiff y polisi hwn ei adolygu bob tair blynedd o leiaf*

## Polisi Gwrth-dwyll

### 1. Datganiad Polisi

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o onestrwydd, uniondeb ac atebolrwydd. Mae twyll yn gwbl annerbyniol ac ni chaiff ei oddef dan unrhyw amgylchiadau. Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i atal, canfod ac ymateb yn gadarn i unrhyw achos o dwyll sy'n effeithio ar ei gweithrediadau, ei staff, ei myfyrwyr neu ei henw da.

### 2. Cwmpas

Mae’r polisi hwn yn berthnasol i’r canlynol:

- Staff
- Myfyrwyr
- Contractwyr, cyflenwyr a phartneriaid trydydd parti
- Aelodau’r Cyngor
- Unrhyw unigolion eraill sy'n cynrychioli’r brifysgol neu'n gweithredu ar ei rhan

Mae twyll yn cynnwys defnyddio dichell i gael mantais annheg neu anghyfreithlon, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Lladrad neu gamddefnyddio arian neu asedau'r brifysgol
- Ffugio cofnodion neu ddogfennau
- Hawlio am waith heb ei gyflawni neu am amser heb ei weithio
- Twyll caffael
- Twyll derbyniadau neu arholiadau
- Llwgrwobrwyo
- Twyll digidol, er enghraifft trin rhaglenni neu ddata
- Cyfrifyddu anwir
- Cydgynllwynio

### 3. Cyfrifoldebau

#### 3.1 Y Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol

- Sicrhau diwylliant o onestrwydd ac ymddygiad moesegol
- Darparu cyfeiriad strategol ac adnoddau i reoli’r risg o dwyll
- Goruchwylio systemau effeithiol o lywodraethu a rheolaeth fewnol

#### 3.2 Staff gyda chyfrifoldebau arwain

- Gweithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb
- Gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau a rheolaethau
- Bod yn effro i nodi risgiau a thynnu sylw'r timau perthnasol atynt.

### 3.3 <u>Staff y brifysgol</u>

- Gweithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb
- Bod yn effro i'r posibilrwydd o dwyll neu lygredd
- Adrodd pryderon yn unol â'r polisi hwn

### 3.4 <u>Tîm Cyllid ac Archwiliad Mewnol</u>

- Ymchwilio i amheuaeth o dwyll
- Adrodd canfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac awdurdodau perthnasol

### 3.5 <u>Myfyrwyr a Thrydydd Partïon</u>

- Dilyn polisïau a chodau ymddygiad y brifysgol
- Adrodd am amheuon o dwyll trwy'r sianeli priodol

## 4. Atal a Darganfod

Bydd y brifysgol yn gwneud y canlynol:

- Cynnal rheolaethau a gweithdrefnau ariannol cadarn
- Cynnal asesiadau risg ac adolygiadau rheolaidd
- Cynnal archwiliadau ac adolygiadau rheolaidd
- Darparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i staff
- Asesu cyflenwyr a chontractwyr yn drylwyr
- Hyrwyddo diwylliant o dryloywder ac atebolrwydd

## <u>Gweithdrefn Ymateb i Dwyll</u>

## 5. Adrodd am Dwyll

Rhaid rhoi gwybod am amheuaeth o dwyll ar unwaith. Gellir gwneud adroddiadau trwy’r canlynol:

- Y Prif Swyddog Cyllid
- Y Dirprwy i’r Is-ganghellor, os yw adroddiad yn ymwneud â'r Prif Swyddog Cyllid
- Cadeirydd y Cyngor, os yw adroddiad yn ymwneud â'r Is-ganghellor
- Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, os yw adroddiad yn ymwneud â Chadeirydd y Cyngor
- Ysgrifennydd y Brifysgol, os gwneir adroddiad dan bolisi Datgelu er Lles y Cyhoedd Prifysgol Bangor https://my.bangor.ac.uk/legal-and-compliance/documents/Public_Interest_Disclosure_Whistleblowing_V5-CY.pdf

Caiff pob adroddiad ei drin o ddifrif a'i ymchwilio'n brydlon ac yn gyfrinachol. Caiff unrhyw unigolyn sy'n destun ymchwiliad i dwyll ei drin gyda thegwch ac urddas trwy gydol y broses. Caiff honiadau eu trin yn gyfrinachol, caiff ymchwiliadau eu cynnal yn ddiduedd, ac ni chymerir unrhyw gamau heb i’r unigolyn gael cyfle rhesymol i ymateb. Bydd mesurau dros dro yn gymesur ac nid yn gosbol. Mae gan bob unigolyn yr

hawl i gynrychiolaeth, apêl a chefnogaeth, a chânt eu diogelu rhag dial os canfyddir bod honiadau'n ddi-sail.

## 6. Ymchwiliad a Chamau Disgyblu

Bydd ymchwiliadau'n dilyn proses deg a chyson:

- Cydnabod derbyn yr adroddiad i'r sawl a adroddodd (oni bai ei fod yn ddienw)
- Asesiad cychwynnol gan swyddog dynodedig priodol
- Ymchwiliad llawn os oes angen, a gynhelir fel arfer gan yr archwilwyr mewnol.
- Camau disgyblu os cadarnheir twyll, hyd at ac yn cynnwys diswyddo
- Atgyfeirio at yr heddlu neu awdurdodau rheoleiddio os oes amheuaeth o weithgarwch troseddol

## 7. Y Broses Ymchwilio

Cylch gwaith yr ymchwiliad fydd:

1. **Casglu Ffeithiau:** adolygu dogfennau, cofnodion a thrafodion.
2. **Cyfweliadau:** cynnal cyfweliadau gyda staff/tystion yn dilyn canllawiau AD/cyfreithiol.
3. **Dadansoddi:** cyfrifeg fforensig, adolygu data, canfod patrymau.
4. **Canfyddiadau:** paratoi adroddiad ymchwiliad ffurfiol gyda chasgliadau ac argymhellion.
5. **Argymhellion:** gwelliannau rheolaethol, camau disgyblu, camau adfer.

Bydd ymchwiliadau'n amserol, yn wrthrychol ac yn gymesur.

## 8. Adfer Colledion

Os yw twyll yn arwain at golled ariannol, bydd y brifysgol yn gwneud popeth posib i adennill yr arian, gan gynnwys camau sifil a hawliadau yswiriant lle bo'n berthnasol.

## 9. Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg

Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg:

**Hysbysiad ar unwaith (o fewn 48–72 awr):**

- Crynodeb o natur yr honiad gan y cadeirydd, amcangyfrif o'r risg, camau rheoli, y swyddog ymchwilio a benodwyd a'r amserlen arfaethedig.
- Bydd yr Is-ganghellor, Cadeirydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid hefyd yn cael gwybod.
- Ystyrir hefyd a ddylid adrodd i Medr a'r Comisiwn Elusennau.

**Diweddariad dros dro:**

- Yn wythnosol neu fel y cytunwyd, yn crynhoi cynnydd, canfyddiadau rhagarweiniol, colledion amcangyfrifedig a mesurau cyfyngu.

**Yr Adroddiad Terfynol**

- Adroddiad ymchwiliad llawn (wedi ei olygu yn ôl yr angen), colledion wedi eu meintioli, canlyniadau adferiad, camau disgyblu neu gyfreithiol a chynllun gweithredu adferol gyda pherchnogion a therfynau amser. Cyflwynir yr adroddiad terfynol i'r Bwrdd Gweithredol cyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg.

## 10. Monitro ac Adolygu

Adolygir y polisi a'r weithdrefn hon bob tair blynedd neu mewn ymateb i newidiadau sylweddol mewn gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol. Caiff effeithiolrwydd y polisi ei fonitro trwy ganlyniadau archwiliadau, adroddiadau ar ddigwyddiadau ac adborth gan randdeiliaid.

**Cymeradwywyd gan:** Bwrdd Gweithredol
**Dyddiad:** 29/10/2025
**Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:** [Dyddiad]